

# Uned 29:

# Cynhyrchu Moch

**Côd yr Uned:** F/600/9147

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i ddysgwyr y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu moch, a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o systemau cynhyrchu moch ynghyd â'r sgiliau hwsmona a rheoli angenrheidiol i weithio yn y sector moch.

## Cyflwyniad i'r uned

I lwyddo, mae angen i gynhyrchwyr moch fod yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n effeithio ar y diwydiant moch, gartref ac yn fyd-eang, ynghyd â'r sgiliau hwsmona anifeiliaid sy'n angenrheidiol i oroesi mewn amgylchedd lle mae pris y farchnad am gynnyrch moch yn newid yn barhaus.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i wahanol systemau cynhyrchu moch, moch dan do ac awyr agored, cynhyrchu perchyll, magu a phesgi, a'r llety cysylltiedig ar gyfer moch. Bydd ganddynt ddealltwriaeth glir o'r ffactorau economaidd ac amgylcheddol sy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau wrth gynhyrchu moch. Bydd hyn yn caniatáu i ddysgwyr wneud penderfyniad deallus ynghylch cynhyrchu moch yn dyfodol.

Bydd y dysgwyr yn trafod hwsmona a rheoli bridio moch a'r moch sy'n tyfu. Byddant yn deall theori iechyd a lles anifeiliaid a'r ddeddfwriaeth les sy'n gysylltiedig â'r anifail sy'n tyfu a bridio. Trafodir hefyd ofynion maeth y moch ar wahanol gamau'r cylchredau cynhyrchu, gan gynnwys cynhwysion porthiant a fformiwleiddio dognau.

Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau hwsmona cysylltiedig â chylchred fridio moch a moch sy'n tyfu ac yn ennill profiad o ddiagnosis, atal a thrin clefydau a'r cysylltiad rhwng hynny a'r gylchred gynhyrchu, lletya moch a maeth.

## Deilliannau dysgu

### Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:

- 1 Ddeall y prif systemau cynhyrchu moch
- 2 Deall rheoli moch bridio
- 3 Deall rheoli moch sy'n tyfu
- 4 Gallu cyflawni technegau hwsmona moch perthnasol.

## 1 Deall y prif systemau cynhyrchu moch

*Trosolwg o gynhyrchu moch:* niferoedd moch cyfredol a thueddiadau yn y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang; systemau cynhyrchu ee bridio, unedau dan do ac awyr agored; systemau a dulliau magu; systemau lletya ar gyfer stoc bridio, tyfu a gorffen, yn systemau dan do ac awyr agored; bridiau, cymysgryw, genoteip a geneteg moch; gofynion safle ar gyfer unedau moch awyr agored ee hinsawdd, math o bridd, topograffi

*Ffactorau sy'n effeithio ar ddewis system:* ee ariannol, economaidd, marchnata, argaeledd gwasanaethau, arferion ffermio cyfredol, dewis personol, llafur sydd ar gael, ffactorau amgylcheddol; deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol cyfredol ee Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Lloegr) (Diwygiwyd) 2003, Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Diwygiwyd) 1999, Deddf Lles Anifeiliaid 2007, codau DEFRA sy'n berthnasol i foch; ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar fenter foch ee gofynion lles anifeiliaid fferm cyfredol, mesurau bioddiogeledd wrth gynhyrchu moch ee trochfeydd diheintio traed, golchi olwynion lorïau; effaith amgylcheddol, rheoli llygredd, iechyd a diogelwch; ariannol, pris y farchnad, taliadau gwasanaeth; effeithiau corfforol, clefydau, perfformiad cynhyrchu, ffactorau amgylcheddol.

## 2 Deall rheoli moch bridio

*Hwsmona a rheoli moch bridio:* cofnodion cynllunio, meincnodi; y gylchred atgenghedlu (ymhadu artiffisial (AI)), ymhadu naturiol, arsylwi rhidiad, amser optimwm ar gyfer gwasanaethu); rheoli baedd, hwch a banwes yn ystod y gylchred fridio, ffrwythlondeb ac anffrwythlondeb; amnewid stoc bridio, polisi difa; gofynion maeth ar gyfer anifeiliaid bridio ac atgenghedlu; systemau a thechnegau porthi; clefydau bacteriol, firol a pharasitig ee fflamwydden, ysgôth; diagnosio, atal a thrin clefydau ymhlith moch bridio; arferion rheoli i gynnal iechyd cenfaint da ee cynlluniau iechyd anifeiliaid, ymweliadau rheolaidd gan y milfeddyg, polisi brechu; y gwahaniaeth rhwng rheoli bridio dan do ac awyr agored; iechyd a diogelwch; Cyfarpar Amddiffyn Personol (PPE)

## 3 Deall rheoli moch sy'n tyfu

*Hwsmona a rheoli moch sy'n tyfu o borchell i fochyn gorffen:* asesu siartiau a chofnodion perfformiad (corfforol, ariannol, trwyddedau symud, milfeddygol a meddygol, perfformiad cenfaint, anfonebau gwerthiant); rhesymau dros gofnodi ee cyfreithiol, gweithrediadol, rheoli; porthiant a maeth ar gyfer cyfradd dyfu a pherfformiad, pwysigrwydd protein a lysin yn neiet moch; effeithiau niweidiol cynhwysion a thocsinau annigonol a gwaharddedig; fformiwla porthiant; systemau porthi, systemau porthi gwlyb a sych; iechyd a diogelwch; Cyfarpar Amddiffyn Personol (PPE)

## 4 Gallu cyflawni technegau hwsmona moch perthnasol

*Hwsmona arferol:* glanhau llety; rhoi porthiant a dŵr; gwiriadau arferol, iechyd, diagnosio clefydau, canfod rhidiad; hylendid, glanweithdra a thaclusrwydd uned; gweithdrefnau a chofnodion milfeddygol a meddygol; ynysu stoc amnewid; cofnodion symud; asesiadau risg; iechyd a diogelwch

*Tasgau stoc:* cysylltiedig â bridio moch ee cynorthwyo adeg porchella, gweini, diagnosio beichiogrwydd, rhoi cynnyrch milfeddygol a meddygol; cynllun iechyd anifeiliaid; iechyd a diogelwch; cyfarpar amddiffyn personol (PPE); cysylltiedig â moch sy'n tyfu ee tocio dannedd, tocio cynffonau, rhoi pigladau, pwysu.

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
LI1 cymharu'r prif systemau cynhyrchu moch gan gynnwys systemau dwys a helaeth [YA]	T1 disgrifio'r ffactorau sy'n pennu dewis system gynhyrchu moch	Rh1 trafod ffactorau sy'n debygol o effeithio ar berfformiad ffisegol ac ariannol menter foch
LI2 amlinellu'r ffactorau sy'n pennu dewis pob system, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• llety</li> <li>• lleoliad</li> <li>• marchnadoedd</li> <li>• amgylcheddol</li> <li>• adnoddau [YA]</li> </ul>	T2 trafod maeth a bwydo hwch, banwes a baedd yn ystod cylchred fridio	Rh2 cyfiawnhau cynllun bridio stoc amnewid ar gyfer cenfaint o foch
LI3 egluro hwsmona moch bridio [YA]		
LI4 trafod problemau cyffredin cysylltiedig â moch bridio [MC, HR]		
LI5 gwerthuso ffactorau sy'n pennu cynhyrchedd hwch [HR]		
LI6 egluro hwsmona moch sy'n tyfu	T3 egluro sut mae maeth moch sy'n tyfu yn dylanwadu ar iechyd, cyfradd dyfu ac ansawdd carcass	
LI7 trafod problemau cyffredin cysylltiedig â moch sy'n tyfu	T4 cynhyrchu cynllun iechyd ar gyfer uned foch.	

<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
LI8 gwerthuso'r ffactorau sy'n dylanwadu ar dwf moch gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• llety</li> <li>• lleoliad</li> <li>• marchnadoedd</li> <li>• amgylcheddol</li> <li>• adnoddau</li> </ul>		
LI9 cyflawni gwaith gofalu arferol a thasgau stoc cysylltiedig yn unol â chodau ymarfer a deddfwriaeth		
LI10 cynllunio gosodiad uned foch ar sail gwybodaeth a roddir.		
LI11 dadansoddi cofnodion ffisegol ac ariannol a ddewiswyd i asesu perfformiad cenfaint o foch.		

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

<b>Allwedd</b>	YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol DM - dysgwyr myfyriol GT - gweithwyr tîm HR - hunan-reolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol
----------------	--

## Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

---

### Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon dylid defnyddio ystod mor eang o dechnegau â phosib. Gallai hyn gynnwys darlithoedd, trafodaethau, cyflwyniadau seminar, gwaith magu moch ymarferol o dan oruchwyliaeth, ymweliadau safle, lleoliadau gwaith, ymchwil ar y rhynggrwyd a/neu mewn llyfrgell. Dylai'r cyflwyno ysgogi, ysbrydoli, addysgu ac ennyn brwdfrydedd y dysgwyr.

Dylid monitro lleoliadau gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y profiad dysgu. Byddai'n ddefnyddiol pe bai dysgwyr a goruchwylwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o ofynion yr uned cyn cyflawni unrhyw weithgareddau cysylltiedig â gwaith, fel bod modd casglu tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar y pryd. Dylai'r dysgwyr ofyn am gofnodion arsylwi a/neu ddatganiadau tystion i'w defnyddio'n dystiolaeth o hyn.

Gallai siaradwyr gwadd arbenigol helpu i wneud y pwnc yn fwy perthnasol i ddysgwyr. Er enghraifft, gallai ymgynghorwyr moch, rheolwyr bridio moch neu staff milfeddygfeydd sy'n trin anifeiliaid mawr siarad am eu gwaith, y sefyllfaoedd mae eu cleientiaid yn eu hwynebu a'r systemau a'r dulliau maent yn eu defnyddio.

Dylai'r tiwtoriaid bwysleisio pwysigrwydd iechyd a diogelwch, lles anifeiliaid, materion bio-ddiogeledd yn ymwneud â gweithio gydag ac o amgylch da byw yn rheolaidd a'r angen am reoli'r adnodd gan ddefnyddio dulliau cymeradwy. Rhaid cyflawni asesiadau risg cyn unrhyw weithgareddau ymarferol a chyn i'r dysgwyr ymweld ag unrhyw unedau moch. Wedi creu asesiadau risg addas, rhaid darparu PPE priodol a'u defnyddio.

Dylai tiwtoriaid ystyried cyfuno'r cyflwyno, yr astudio preifat a'r asesu ar gyfer yr uned hon ag unedau ac offer asesu perthnasol eraill mae'r dysgwyr yn eu dilyn.

Bydd mynediad i ystod o unedau moch yn rhoi cyfle i'r dysgwyr weld dulliau amrywiol o gynhyrchu moch, systemau porthi, mathau o adeiladau a thechnegau rheoli.

Mae deiliant dysgu 1 yn trafod gwybodaeth a materion cefndir yn ymwneud â chynhyrchu moch a systemau cynhyrchu. Mae hyn yn debygol o gael ei gyflwyno drwy ddarlithoedd ffurfiol, trafodaeth, ymweliadau â safleoedd ac ymchwil annibynnol gan y dysgwyr. Bydd y dysgwyr yn ymwybodol o'r systemau a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchu moch, a'r gwahaniaethau rhyngddynt. Bydd y ffactorau sy'n pennu cynhyrchu moch a systemau cynhyrchu yn cael eu harchwilio.

Mae deilliannau dysgu 2 a 3 wedi'u cysylltu. Maent yn trafod y sgiliau hwsmona sy'n rhan o fridio a thyfu moch a rheoli hynny. Trafodir hefyd faeth moch a llunio porthiant.

Dylid amrywio'r technegau cyflwyno. Disgwylir bod darlithoedd ffurfiol, arddangosiadau, sesiynau ymarferol ar hwsmona moch a thrin da byw o dan oruchwyliaeth, ac ymweliadau safle yn llunio rhan o'r cyflwyno ar gyfer y deilliannau dysgu hyn.

Mae deiliant dysgu 4 yn canolbwyntio ar agweddau ymarferol iechyd a lles moch, diagnosis a rheoli clefydau, a thasgau stoc cysylltiedig â bridio a thyfu moch. Disgwylir i'r dysgwyr arddangos ystod lawn o sgiliau hwsmona moch cysylltiedig â bridio a thyfu moch. Bydd y dysgwyr yn caffael gwybodaeth a phrofiad ymarferol wrth gyflawni tasgau hwsmona a stoc.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau**.

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys asesu) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

<b>Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir</b>
Cyflwyniad a throsolwg o'r uned.
Cyflwyniad i systemau/tueddiadau cynhyrchu moch.
Bridiau/cymysgrywiau.
<b>Aseiniad 1: Systemau Cynhyrchu Moch (LI1, T1)</b>
Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad.
Ymchwil annibynnol i gwblhau'r asesiad.
Theori - tasgau hwsmona arferol.
Tasgau hwsmona ymarferol (ymarfer ac asesu trwy gydol yr uned).
Theori – cyflwyniad i faeth moch.
Tasgau stoc ymarferol (Cyflwyniad).
<b>Aseiniad 5: Dylunio Uned Foch (Rh1)</b>
Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad.
I'w gyflwyno wedi'r sesiwn ar foch sy'n tyfu.
Amser i gwblhau (gellir cyflawni rhannau ar ôl pob mewnbwn theori hwsmona perthnasol).
<b>Aseiniad 2 – Hwsmona Moch (LI2, LI3, LI4, LI5, LI6, LI7, LI8, T2, T3, T4, Rh2)</b>
Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad.
Theori – stoc bridio – dethol stoc; rheoli hwch sych, banwes a baedd, rheoli gwasanaethu gan gynnwys porthi
Ymarferol yn ymwneud â rheoli gwasanaethu etc.
Theori – stoc bridio – gofalu am hwch feichiog gan gynnwys porthi.
Theori – stoc bridio – rheoli porchella i ddiddwyno gan gynnwys porthi.
Ymarferol yn ymwneud â thasgau porchella i ddiddwyno.
Theori – moch sy'n tyfu (systemau cynhyrchu gwahanol).
Ymarferol yn ymwneud â moch sy'n tyfu.
<b>Aseiniad 3 – Hwsmona Ymarferol a Thasgau Stoc (LI9, LI10)</b>
Cadw moch yn yr awyr agored.

## Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir

### Aseiniad 4: Dadansoddi Perfformiad (LI11, Rh3)

Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad.

Amser i gwblhau.

Theori – economeg moch.

Adolygu'r uned.

## Asesu

Dylai'r fethodoleg asesu adlewyrchu'r cyfleoedd a geir gan amrediad y dulliau cyflwyno a ddefnyddir. Dylai gynnwys aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig, ymweliadau ag unedau moch addas ac, yn ddefnyddiol, bydd yn cysylltu â lleoliadau profiad gwaith.

Ar gyfer LI1 ac LI2, rhaid i'r dysgwyr ddarparu gwybodaeth am y prif systemau cynhyrchu moch a'r ffactorau sy'n pennu'r dewis o bob system. Disgwylir iddynt gynnwys ystod o systemau gan gynnwys systemau dan do, awyr agored a magu. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad darluniadol gyda nodiadau (gan ddefnyddio meddalwedd briodol neu daflunydd o bosib).

Gallai'r tiwtor asesu LI2 yn uniongyrchol yn ystod gweithgareddau ymarferol. Os defnyddir y fformat hwn, tystiolaeth addas o weithgareddau o dan arweiniad yw cofnodion arsylwi wedi'u cwblhau gan y dysgwyr a'r tiwtor. Os asesir yn ystod lleoliad, dylid darparu datganiadau tystion gan gynrychiolydd addas a'u dilysu gan y tiwtor.

Mae LI3, LI4 ac LI5 yn gofyn bod y dysgwyr yn darparu gwybodaeth am hwsmona anifeiliaid bridio a thorllwythi trwy gydol y gylchred fridio. Ynghyd â thrafod arferion dyddiol dylai hyn gynnwys rheoli bridio, ymhadu artiffisial a gwasanaethu naturiol, diagnosis beichiogrwydd, gofalu am hwch neu fanwes feichiog a gofal porchella ac ar ôl porchella. Dylai'r tiwtoriaid nodi'r amcanion a roddwyd, sy'n debygol o gael eu gyrru gan ofynion yr uned foch. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau hyn fod yr un fath i bob dysgwr. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf adroddiad neu aseiniad.

Ar gyfer LI6, LI7 ac LI8, rhaid i'r dysgwyr egluro hwsmona a lletya moch sy'n tyfu a siarad am broblemau cyffredin a ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar dwf. Dylai hyn gynnwys gofynion yn ymwneud â chynnyrch terfynol y gwahanol systemau. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau hyn fod yr un fath i bob dysgwr. Gall y dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer LI2.

Mae LI9 yn gofyn bod y dysgwyr yn cyflawni tasgau hwsmona dyddiol arferol a'r tasgau stoc hynny sy'n gysylltiedig â bridio a thyfu da byw. Dylai'r dysgwyr sicrhau bod eu gweithgareddau'n unol â chodau lles, gofynion amgylcheddol a bioddiogeledd perthnasol.

Ar gyfer LI10, rhaid i'r dysgwyr lunio cynllun ar gyfer gosodiad uned foch ar sail gwybodaeth a roddir. Mae LI11 yn gofyn am dadansoddiad o gofnodion corfforol ac ariannol a ddefnyddir i asesu perfformiad cenfaint o foch. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer LI10 gysylltu â'r hyn a gafwyd ar gyfer LI3, LI4 ac LI5.

Mae LI11 yn gofyn bod dysgwyr yn dadansoddi cofnodion corfforol ac ariannol penodol am foch i asesu perfformiad cenfaint o foch ac egluro pam mae cofnodion o'r fath yn angenrheidiol. Dylai'r dysgwyr gynnwys trwyddedau symud, cofnodion milfeddygol a meddygol, cofnodion perfformiad cenfaint ac anfonebau gwerthiant. Dylai'r cofnodion hyn gael eu dadansoddi a'u cymharu â ffigurau meincnodi i nodi cryfderau a gwendidau cenfaint. Gall y dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer LI1.

Ar gyfer T1, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r ffactorau sy'n pennu dewis system gynhyrchu moch. Gellir cysylltu hyn yn uniongyrchol â gwaith sy'n cael ei gyflawni ar gyfer LI1 a gall y dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer LI1.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr drafod maeth a phorthi o leiaf un hwch, un fanwes ac un baedd. Dylai'r tiwtoriaid nodi'r moch neu gytuno arnynt drwy drafod gyda'r dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Rhaid i'r dysgwyr ystyried ofynion maeth a symiau porthi hwch sych a hwch sy'n llaetha. Gallai'r dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer LI1 neu gellid ei chasglu'n llafar yn ystod gweithgareddau ymarferol gan ddefnyddio cofnodion arsylwi neu ddatganiadau tystion.

Mae T3 yn gofyn bod y dysgwyr yn egluro sut mae maeth moch sy'n tyfu yn dylanwadu ar iechyd, cyfradd dyfu ac ansawdd carcass. Dylai'r dysgwyr gynnwys porthiant gwlyb a sych, gwerthoedd porthiant, a fformiwleiddio dognau. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer T2. Gall y dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer LI1 neu gellid ei chasglu'n llafar yn ystod gweithgareddau ymarferol gan ddefnyddio cofnodion arsylwi neu ddatganiadau tystion.

Ar gyfer T4, rhaid i'r dysgwyr ddarparu gwybodaeth am y prif risgiau clefydau i foch a sut gellir atal a thrin clefydau/parasitiaid dethol ar ffurf cynllun iechyd ar gyfer uned foch. Dylai'r tiwtoriaid nodi'r clefydau/parasitiaid neu gytuno arnynt trwy drafod gyda'r dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Dylai'r dystiolaeth adlewyrchu cymhwysiad ymarferol ar gyfer math penodol o gynhyrchu moch.

Ar gyfer Rh1, dylai'r tiwtor nodi system gynhyrchu moch neu gytuno arni trwy drafod gyda'r dysgwyr. Rhaid i'r dysgwyr drafod ffactorau sy'n debygol o effeithio ar berfformiad ffisegol ac ariannol y fenter foch dan sylw. Dylai'r dysgwyr drafod pob agwedd megis effeithiau ariannol, pris y farchnad, taliadau gwasanaeth, costau llafur, effeithiau corfforol, clefydau, perfformiad cynhyrchu a ffactorau amgylcheddol. Gall y dysgwyr roi cyd-destun i'w tystiolaeth fel a ddisgrifiwyd yn LI1 a T1. Gall y dystiolaeth fod yn yr un fformat ag ar gyfer LI1.

Mae Rh2 yn gofyn bod y dysgwyr yn cyfiawnhau cynllun bridio stoc amnewid ar gyfer cenfaint o foch. Dylai'r dysgwyr ddefnyddio meincnodau cynhyrchu megis nifer y torllwythi fesul hwch bob blwyddyn, y perchyll a enir fesul hwch bob blwyddyn a'r perchyll a ddiddwynir fesul hwch bob blwyddyn. Gellir cysylltu hyn â gwaith ar gyfer Rh1 a Rh3. Gall y dystiolaeth fod ar yn yr un fformat ag ar gyfer LI1.

## Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Teitl yr aseiniad	Senario	Dull asesu
LI1, T1	Systemau Cynhyrchu Moch	Cynhyrchu trosolwg o'r gwahanol systemau cynhyrchu moch a'r ffactorau sy'n pennu dewis pob un.	Cyflwyniad drwy boster / PowerPoint / ar lafar neu gyfuniad.
LI2, LI3, LI4,	Hwsmona Moch	Llunio adroddiad ar y technegau hwsmona	Tystiolaeth ddarluniadol ysgrifenedig.



Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Teitl yr aseiniad	Senario	Dull asesu
LI5, LI6, LI7, LI8, T2, T3, T4, Rh2		<p>angenrheidiol ar gyfer bridio a magu moch.</p> <p>Dylai hyn gynnwys esboniad o'r gofynion maeth ar bob cam cynhyrchu gyda dognau sampl.</p> <p>Mae hefyd gofyn i chi lunio cynllun ar gyfer amewnid stoc bridio.</p>	
LI9, LI10	Tasgau Hwsmona Arferol a Stoc Ymarferol	Tasgau hwsmona arferol a da byw ymarferol i'w hasesu gan y tiwtor/goruchwyliwr gwaith.	<p>Adroddiadau dyletswydd gan oruchwyliwr gwaith neu asesiad ymarferol gan y tiwtor.</p> <p>Datganiadau tystion/arsylwyr.</p> <p>Asesiad ymarferol.</p>
LI11, Rh3	Dadansoddiad Perfformiad	Dylech ddadansoddi perfformiad uned gynhyrchu a ddewiswyd o gyfres o ddata a ddarparwyd gan eich tiwtor/goruchwyliwr lleoliad gwaith.	<p>Dadansoddi data.</p> <p>Adroddiad ysgrifenedig</p>
Rh1	Dylunio Uned Foch	<p>Gan ddefnyddio ardal gynhyrchu gyfredol, lle gellir argymhell addasiadau, neu ardal a ddyrannwyd gan eich tiwtor, dyluniwch uned foch ar gyfer system gynhyrchu a nodwyd.</p> <p>Mae angen cyfiawnhau'r dyluniad o ran gofynion lles, deunyddiau adeiladu, deunyddiau trin, etc. i'w cynnwys.</p>	<p>Cynllun anodedig.</p> <p>Gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi'r cynllun.</p>

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

<b>Lefel 2</b>
Cyflwyniad i Gynhyrchu Anifeiliaid Fferm
<b>Lefel 3</b>
Elfen LP24.1 Sefydlu amodau priodol ar gyfer da byw
Elfen LP24.2 Monitro a chynnal amodau priodol ar gyfer da byw
Elfen LP28.1 Sefydlu cynllun bridio gyr, ei roi ar waith a'i werthuso
Elfen LP28.2 Galluogi da byw i feichiogi
Elfen LP28.3 Monitro a rheoli anifeiliaid yn ystod cyfnod beichiogrwydd
Elfen LP29.1 Monitro a chynnal da byw yn ystod esgor
Elfen LP29.2 Gofalu am dda byw wedi esgor
Deall Anatomeg a Ffisiolog Anifeiliaid
Cynhyrchu Da Byw Amaethyddol

### Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i uned foch gynhyrchiol sy'n rhoi cyfle iddynt arsylwi arddangosiadau a chyflawni tasgau cysylltiedig â chynhyrchu moch. Rhaid bod grwpiau oedran gwahanol yn amrywio o berchyll i berchyll diddyfnu, moch sy'n tyfu a moch gorffen ar gael. Rhaid i'r dysgwyr hefyd gael cyfle i drin stoc bridio a chyflawni tasgau cysylltiedig.

Rhaid i'r holl gyfarpar angenrheidiol i gyflawni'r tasgau fod mewn cyflwr gweithio da ac yn addas at ddiben y gwaith. Mae pryderon lles anifeiliaid yn golygu bod rhaid goruchwyllo'r dysgwyr wrth iddynt gyflawni tasgau stoc. Rhaid ystyried iechyd a diogelwch ar bob adeg fel na pheryglir y dysgwyr. Bydd mynediad i gofnodion cynhyrchu a bridio yn helpu'r dysgwyr gyda phroblemau rheoli ac wrth gynllunio.

Dylai'r tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon fod yn gymwys ac yn brofiadol ym maes cynhyrchu moch a thasgau hwsmona. Yn ddefnyddiol, dylent feddu ar brofiad diwydiannol diweddar yn y diwydiant cynhyrchu moch neu ddangos tystiolaeth o gyswllt rheolaidd â'r diwydiant a/neu ddiweddarau technegol.

### Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr wybodaeth gefndir a'r sgiliau ymarferol mae eu hangen ar ddygwyr i gael cyflogaeth yn y diwydiant cynhyrchu moch.

Dylai mynediad i leoliadau gwaith a/neu ymweliadau safle fod yn rhan annatod o gyflwyno'r uned hon. Yn y modd hwn mae cyflogwyr ac ymarferwyr y diwydiant yn gallu cael mewnbwn i ddatblygiad dysgwyr. Gellir gwella'r mewnbwn hwn os yw'r dysgwyr a'r goruchwylwyr lleoliadau yn ymwybodol o ofnyon yr uned cyn cyflawni unrhyw weithgareddau cysylltiedig â gwaith, fel bod tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol yn gallu cael ei chyd-nabod.

Gallai siaradwyr arbenigol gwadd o'r diwydiant yn ychwanegu perthnasedd pellach i'r pwnc ar gyfer y dysgwyr.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Close WH a Cole D J A – *Nutrition of Sows and Boars* (Nottingham University Press, 2000)  
ISBN 1897676530

Gadd J – *Pig Production Problems; John Gadd's Guide to their Solutions* (Nottingham University Press, 2003)  
ISBN 1897676344

Garnsworthy P a Wiseman J (golygyddion) – *Recent Developments in Non-Ruminant Nutrition*  
(Nottingham University Press, 2006) ISBN 1904761348

Muirhead ac Alexander – *Managing Pig Health and the Treatment of Disease* (Nottingham University Press, 1999) ISBN 0956015009

Muirhead ac Alexander – *Pocket Guide to Recognising and Treating Pig Disease* (Nottingham University Press, 1999) ISBN 0953015017

Muirhead ac Alexander – *Pocket Guide to Recognising and Treating Pig Infertility* (Nottingham University Press, 2000) ISBN 0953015033

Smith P, Crabtree H a Bird N – *Perfecting the Pig Environment* (Nottingham University Press, 2009)  
ISBN 190476181

Soffe R a McConnell P – *The Agricultural Notebook, 20fed Argraffiad* (Blackwell Science, 2003)  
ISBN 0632058293

Taylor D – *Pig Diseases, 7fed Argraffiad* (Farming Press, 1999) ISBN 095069326X

### Cyhoeddiadau eraill

DEFRA – *Code of Recommendations For the Welfare of Animals Pigs* (Defra Publications, 2003) DEFRA –  
Welfare of Farmed Animals (England) Regulations (Government Legislation, 2007)

### Gwefannau

[www.bpex.org](http://www.bpex.org)

Y Weithrediaeth Foch Brydeinig

[www.defra.gov.uk](http://www.defra.gov.uk)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

[www.npa-uk.net](http://www.npa-uk.net)

Y Gymdeithas Foch Genedlaethol

[www.thepigsite.com](http://www.thepigsite.com)

The Pig Site

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

Sgil	Pan fydd y dysgwyr yn...
Meddylwyr creadigol	defnyddio technegau wrth gyflawni tasgau hwsmona arferol
Hunan-reolwyr	cyflawni dyletswyddau gofal ymarferol

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

Sgil	Pan fydd y dysgwyr yn...
Ymholwyr annibynnol	ymchwilio i systemau cynhyrchu moch
Meddylwyr creadigol	datrys problemau

## Sgiliau swyddogaethol - Lefel 2

Sgil	Pan fydd y dysgwyr yn...
<b>TGCh - Canfod a dethol gwybodaeth</b>	
Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth	defnyddio'r rhyngrwyd i ymchwilio i wybodaeth am systemau cynhyrchu moch
TGCh - Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth	
Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• testun a thablau</li> <li>• delweddau</li> <li>• rhifau</li> <li>• cofnodion</li> </ul>	llunio cyflwyniad ar systemau cynhyrchu
Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r diben a'r gynulleidfa	llunio cyflwyniad ar systemau cynhyrchu llunio cynllun uned foch
<b>Mathemateg</b>	
Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys	dehongli codau lles o ran gofynion lle llunio cynllun ar gyfer uned foch - dyrannu lle
Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwysio i ganfod datrysiadau	dadansoddi cofnodion ffisegol ac ariannol i asesu perfformiad
Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd	cynhyrchu canlyniadau ar sail dadansoddiad o wybodaeth ffisegol ac ariannol
<b>Iaith</b>	
Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau	ymchwilio ar gyfer cyflwyniadau
Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol	cynhyrchu cyflwyniadau ysgrifenedig i'w hasesu.